

CLWYF Y CYFRESI 5: yng ngofal Brynley F. Roberts CYFRES CLORIAU MELYN FOYLES

HYD y gwn i, nid oes neb wedi ysgrifennu hanes llyfrwerthwyr Cymraeg Llundain o ddyddiau'r ddau frawd, Thomas ac Evan Williams, yn y Strand yn y ddeunawfed ganrif hyd at W. H. Roberts ac yna at siop enwog Griffs a Chymdeithas Lyfrau Llundain yn yr ugeinfed ganrif. Yn 1925 hawliai John Hughes, 121 Burnt Ash Hill, Lee, SE12, mai ef oedd 'Yr Unig Lyfrwerthydd Cymraeg yn Llundain' a gellir tybio fod ganddo gorff o gwsmeriaid cyson yng nghapeli Cymraeg Llundain a'r sefydliadau Cymreig eraill yn y ddinas. Yr un oedd cyfeiriad ei gartref a'i fusnes ac nid yw'n eglur, felly, a oedd ganddo siop fel y cyfryw. Cadwai stoc dda o lyfrau (neu o leiaf o deitlau) Cymraeg a Saesneg; hysbysebai y gellid cael unrhyw lyfr Cymraeg neu Saesneg, hen neu ddiweddar, ganddo a chynigiai wasanaeth dethol a darparu llyfrau'n wobrwon ac arhigion. Y mae'r cyfan yn awgrymu fod ganddo gysylltiadau da â'r fasnach lyfrau yng Nghymru. Mewn gwirionedd, yr oedd yn fwy na llyfrwerthwr gan ei fod yn gweithredu'n asiant hysbysebion ac yn trefnu eu gosod yn 'unrhyw newyddiadur a gyhoeddwr yng Nghymru' ac ymhlith Cymry Llundain; yn ogystal, hysbysebai wasanaeth argraffu ('Argraffwaith Cymraeg gan Argraffwyr Cymraeg') ond nid yw'n eglur ai trefnu'r gwaith a wna'i, ai ei gyflawni ei hun, y cyntaf mae'n debyg. Yr oedd yn naturiol, felly, pan ddechreuwyd cyhoeddi *Y Ddolen*, cylchgrawn misol Undeb Cymdeithasau Diwylliadol a Chymdeithas Cymry Ieuainc Llundain yn Hydref 1925, mai John Hughes fyddai'r swyddog hysbysebion a marchnata, swyddogaeth a gyflawnai hefyd i Flwyddlyfr (Llawlyfr) Cymry Llundain. Er hyn oll, nid yn Llundain yr argreffid *Y Ddolen* eithr yn Nolgellau gan E. W. Evans, ac yna, o fis Mawrth 1936 ymlaen, gan R. Evans, Gwasg y Bala, ond cynhwysai pob rhifyn hysbyseb hanner tudalen gan J. W. Hughes, Seymour Printing Co., Euston (Seymour Street) a gynnigiai wasanaeth argraffu Cymraeg safonol.

Dyn diwylliedig a darllengar

Diolch i ymchwil Mr Meurig Owen, hanesydd capeli ac eglwys Cymraeg Llundain ac ysgrif goffa (anarferol o onest) gan 'Wayfarer' (D. R. Hughes) yn *Y Ddolen*, Ebrill 1933, gwyddom ychydig am John Hughes. Dywedir iddo fod yn weinidog ar un adeg, yng Nghaerdydd efallai, ond ymaelododd (dim sôn am wraig na theulu) yn eglwys Bresbyteriaid Lewisham yn 1922 lle y bu'n weithgar mewn llawer cylch, o'r pwyllgor adeiladadau at yr ysgol Sul. Yr oedd hefyd yn Rhyddfrydwr blaenllaw. Yn Llundain gweithiai i'r *Daily Chronicle* ond rhaid ei fod wedi mentro agor ei fusnes o fewn ychydig flynyddoedd. Gŵr ymgon anodd ymwneud ag ef ydoedd, mae'n ymddangos, a'i iechyd yn bur fregus, ond y mae'n amlwg ei fod yn ddyn diwylliedig a darllengar, yn llyfrwerthwr profiadol a phroffesiynol, ac yn ŵr busnes craff ac egniol. Mae'n anodd gwybod pa arwyddocâd sydd i ymgais ganddo i ehangu'r busnes yn Ionawr 1926. Yn *Y Ddolen* y mis hwnnw newidiwyd ychydig ar eiriad ei hysbyseb arferol: 'Gellir cael unrhyw lyfr Cymraeg neu Saesneg o hyn allan gan John Hughes, 26 Upper Montague Street, W1 (Swyddfa'r Young Wales Association, [hynny yw, Cymdeithas Cymry Ieuainc Llundain]) neu 121 Burnt Ash Hill'. A oedd John Hughes yn wir yn ehangu ei fusnes, ai dechrau teimlo chwa rhyw wyntoedd oerion yr oedd a'i fod felly yn ceisio lleoliad a

chyfeiriad mwy canolog a manteisiol? Diddorol sylwi fel y mae yn awr yn enwi rhai llyfrau Cymraeg sydd ganddo ac yn ychwanegu llyfrau y 'Students Christian Movement a'r holl gyhoeddwy'r Saesneg'. Ac yntau newydd symud, neu o leiaf ail-leoli, beth oedd ei ymateb i'r hysbyseb hon [ar y dde] a dderbyniodd ef ei hun ac a ymddangosodd yn rhifyn Mawrth 1926 o *Y Ddolen*.

Hysbyseb Foyles

Bygythiad neu gyfle oedd hyn iddo? Rhaid dyfalu i ba raddau yr oedd yr hysbyseb hon yn un annisgwyl i John Hughes, fel yr oedd, efallai, i drwch darllenwyr y cylchgrawn, yn wyneb y datblygiad nesaf ym musnes y Cymro.

Sefydlwyd siop lyfrau adnabyddus Foyle's yn 1904 gan y ddau frawd, William a Gilbert Foyle, wrth iddynt ddechrau gwerthu eu copïau o'u testun-lyfrau ar ôl iddynt fethu eu harholiadau ar gyfer y gwasanaeth sifil. Gymaint oedd yr ymateb fel y bu'n rhaid iddynt ymorol am gopiâu ail-law eraill er mwyn cwrdd â'r galw. Wedi dechrau yn fusnes amser hamdden yn eu cartref, tyfodd yn weithgarwch amser-llawn ac yn fywoliaeth i'r ddau ohonynt, mewn amrywiol leoliadau yn Llundain ar y cychwyn nes dod i Cecil Court ac yna i 135 Charing Cross Road lle y datblygwyd busnes lyfrau ail-law a newydd (ym maes addysg yn arbennig). Sefydlwyd amryw ganghennau trwy Llundain ond symudwyd y brif siop i gornel 16 Manette Street a 121 Charing Cross Road ac aethpwyd ati i godi estyniad pwrpasol, Trefoile House, yn 119-125 Charing Cross Road yn 1929.

Gŵr busnes mentrus ond hirben oedd William a Gilbert Foyle ac ni ellir ond dyfalu pam y bu iddynt droi eu golygon i gyfeiriad y farchnad Gymraeg, os na ddarbwyllwyd hwy gan John Hughes fod hon, y maes addysg yn arbennig, yn un barod i'w datblygu. Tybed ai cam tuag at hynny oedd hysbyseb Foyle ym mis Mawrth? Bid a fo am hynny, dyma'r hysbyseb y ymddangosodd yn rhifyn Ebrill o *Y Ddolen*:

Llyfrau Cymraeg yn Llundain

Fel y gwelir, yr oedd John Hughes yn dal i gynnig yr un gwasanaeth trwy'r cwmni newydd. Erbyn mis Mehefin mae Foyle's Welsh Depot yn cael ei reoli gan y 'partneriaid', W. A. Foyle, G. S. Foyle, John Hughes, a gwelir arwyddion o egni newydd, ac o brofiad ymarferol y brodyr Foyle, yn yr hysbysebu a'r gweithgarwch gyda chyfeiriadau at 'Stoc helaeth o'r llyfrau diweddaraf ... Nifer fawr o Lyfrau ail-law, llawer ohonynt yn brin iawn ac wedi eu dethol yn ofalus, ac at 'Gatalog helaeth a diddorol o Lyfrau hen a newydd'. Ymddangosodd y 'Catalog o Lyfrau Cymraeg Ail-law' gan Foyle's Welsh Company Limited fis Medi 1926, a throes y partneriaid yn Gyfarwyddwyr, John Hughes yn 'Managing Director'. Argraffwyd y llyfryn 50 tudalen gan J. W. Hughes, Argraffwyr Cymraeg, 74 & 76 Seymour Street, Euston, NW1. Dilynwyd hwn gan ragor o gatalogau llyfrau ail-law ym Mehefin 1928 (1081 teitl, heb enw argraffydd), Awst 1930 (1145 teitl, argraffwyd gan William Lewis, Caerdydd), a hefyd o leiaf un mewn teipysgrif (1942?) o lyfrau newydd a 297 o deitlau ail-law.

Sefydlwyd Gwasg Gymraeg Foyle, yn gyhoeddwy'r, yn 1927 (Ceir hanes

A SPECIAL DEPARTMENT FOR
Welsh Literature
(SECOND-HAND and NEW)

HAS BEEN OPENED AT

Foyles' Bookshops

All the publishers of books in the Welsh language are represented in the stock. Call and inspect the new department! If unable to call, catalogues will be sent on request.

That Book you want
on any conceivable subject

Foyles can supply it.

Over 1,250,000 vols in Stock, classified into twenty Departments, each of which is managed by an expert and issues its own catalogue.

That Book you do not want!

Foyles will buy it—a single volume up to a library

121-125 CHARING CROSS ROAD, W.C.2.

Phone: GERRARD 3251 (2 lines).

cwmni Foyle gan Gilbert H. Fabes, *The romance of a bookshop 1904-1929* (1929) a chyfeiriad at ddechrau'r gwaith Cymraeg, td. 40). Ymddangosodd catalog o gyhoeddiadau gwasg W. & G. Foyle, Ltd., a Foyle's Welsh Press, Ltd., fis Tachwedd 1929 (gyda John Hughes yn dal yn Rheolwr-Gyfarwyddwr) a chafwyd rhestr eraill yn y blynyddoedd dilynol, 1931 (eithr heb enwau cyfarwyddwyr), 1932, a rhestr ddiddyddiad, *Rhestr o lyfrau Foyle sydd ar gael ar hyn o bryd*, W. & G. Foyle, Ltd.; ni chrybwyllir enw'r Wasg Gymraeg. Parhawyd, er hynny, i hysbysebu'r weddol gyson yn *Y Ddolen* nes i'r cylchgrawn ddod i ben yn 1940 ac ni chollwyd y cyswllt rhwng Foyle's a'r cylchgrawn.

Bu John Hughes farw yn 1933, ym mis Mawrth, mae'n debyg, gan mai yn rhifyn Ebrill y cafwyd coffad yn *Y Ddolen*. Dichon iddo ymdeol, neu ymlacio beth, cyn hynny Y mae ei enw fel Cyfarwyddwr-Rheolwr yn ymddangos yn yr hysbysebion hyd fis Ebrill 1931 ond nid oes sôn amdano ar ôl hynny. Dyma'r adeg yr ymunodd William Griffiths, 32 oed, â'r cwmni ac ef a fu'n llywio hynt ochr Gymraeg Foyle's nes iddo ef a'i frodyr sefydlu Griffs yn 1946. Dywedir mewn un ysgrif goffa iddo dreulio 14 blynydd yn Foyle's cyn agor Griffs. Buasai William Griffiths yn Llundain ers iddo adael y Gilfach-goch yn 1922, yr un flwyddyn, efallai, â John Hughes Er ei fod

Llyfrau Cymraeg yn Llundain

RHYBUDD PWYSIG.

Y mae y Cwmni adnabyddus, y MEISTRI W. & G. FOYLE wedi ymuno â MR. JOHN HUGHES, y Llyfrwerthydd Cymreig, ac wedi agor shop arbennig i gyfarfod ag angen

CYMRU LLUNDAIN

Am gyflenwad o Lenyddiaeth Gymraeg.

Bellach gellir cael unrhyw Lyfr, Cylchgrawn, neu Newyddiadur Cymraeg, neu unrhyw Lyfr Saesneg, yn

Foyles' Welsh Depot

(Foyle a Hughes).

121, CHARING CROSS ROAD, W.C. 2.

(Entrance, 16, Manette Street).

Cyhoeddir Llyfrau Cymraeg. Argraffwaith Cymraeg. Derbyni'r Hysbysiadur i'r "Ddolen," neu unrhyw newyddiadur Cymraeg.

Information Bureau—Pob gwybodaeth am faterion Cymreig.

Galwch neu anfonwch am Restr o'u Llyfrau.